# Mesur Addysg (Cymru) 2009

**2009 mccc 5**

## RHAN 2

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 25 Gorchmynion o dan adran 18: y weithdrefn

(1) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 18 rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r personau hynny sydd yn eu barn hwy'n gynrychioliadol o fuddiannau yr effeithir arnynt gan eu cynigion;

(b) rhoi sylw i ganfyddiadau eu hadroddiad o dan adran 17(3).

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori o dan is-adran (1), yn arfaethu gwneud gorchymyn o dan adran 18, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen yn cynnwys—

(a) esboniad o'r cynigion,

(b) drafft o'r gorchymyn arfaethedig, ac

(c) manylion yr ymgynghoriad o dan is-adran (1)(a).

(3) Os gosodir dogfen gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2), rhaid i ddrafft o orchymyn o dan adran 18 i roi effaith i'r cynigion (wedi neu heb eu haddasu) beidio â chael ei osod gerbron y Cynulliad hyd oni fydd cyfnod o drigain o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod y gosodwyd y ddogfen wedi dod i ben.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3) nid yw unrhyw amser pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfnod o doriad o fwy na phedwar diwrnod i'w gyfrif.

(5) Wrth baratoi gorchymyn drafft o dan adran 18 rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3).

(6) Rhaid i ddatganiad gan Weinidogion Cymru fynd gyda gorchymyn drafft a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n unol ag adran 24(4) a rhaid i'r datganiad roi manylion ynghylch—

(a) unrhyw gynrychioliadau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn unol ag is-adran (5), a

(b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a gaiff eu cynnwys yn y ddogfen a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (2).